**Claire Clancy**
Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad
Chief Executive and Clerk of the Assembly

Simon Thomas AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

14 Rhagfyr 2016

Annwyl Simon

Mae'n bleser gennyf anfon Adroddiad Dangosyddion Perfformiad Allweddol cyntaf Comisiwn y Cynulliad yn y Pumed Cynulliad at y Pwyllgor Cyllid. Mae'r adroddiad yn nodi perfformiad y Comisiwn yn erbyn ein nodau strategol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2016.

Diwygiwyd yr adroddiad i sicrhau ei fod yn ddefnyddiol ac yn berthnasol ar gyfer y Pumed Cynulliad. Mae'r targedau dangosyddion wedi cael eu hadolygu, a chrëwyd llinell sylfaen newydd i sicrhau ein bod yn parhau i gael ein herio, ac ein bod yn datblygu'r hyn a gyflawnwyd yn y gorffennol. Mae crynodeb a phrif bwyntiau o'r adroddiad i'w gweld ar dudalennau tri a phedwar.

Rwy'n gobeithio y bydd yr adroddiad yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor ac yn ei helpu gyda'i waith. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw ymholiadau, neu os hoffech gael rhagor o wybodaeth. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi nawr ar dudalennau'r Comisiwn ar y wefan.

Yn gywir

Claire Clancy

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Claire.Clancy@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6230

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Claire.Clancy@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6230



Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol

Ebrill 2016 - Medi 2016

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol

Ebrill 2016 - Medi 2016

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Comisiwn y Cynulliad

# Cynnwys


Cyflwyniad....1
Adrodd am berfformiad....1
Mynediad at wybodaeth....2
Cyflawniad ar sail Nodau Strategol....3
Nod Strategol: Darparu cefnogaeth seneddol o’r radd flaenaf....5
Nod Strategol: Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo’r Cynulliad....6
Nod Strategol: Defnyddio adnoddau’n ddoeth....8



# Cyflwyniad

Yr enw ar gorff corfforaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw Comisiwn y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn gwasanaethu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gynorthwyo â'r gwaith o'i wneud yn sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar ac yn ddeddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Mae'r Comisiwn yn cynnwys Elin Jones AC, y Llywydd, a phedwar Aelod Cynulliad arall o'r pleidiau gwahanol a gynrychiolir yn y Cynulliad: Suzy Davies AC, Caroline Jones AC, Adam Price AC a Joyce Watson AC. Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am gyfeiriad strategol gwasanaethau'r Cynulliad ac mae'n atebol i'r Cynulliad. Mae'r gwaith o reoli a chyflawni o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i **Brif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**, Claire Clancy.

Mae **Strategaeth Comisiwn y Cynulliad 2016-2021** yn rhestru ein nodau ar gyfer y Pumed Cynulliad. Ein nodau strategol yw:

– darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf;

– ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad; a

– defnyddio adnoddau'n ddoeth.

## Adrodd am berfformiad

Mae nodau strategol y Pumed Cynulliad yn pennu'r fframwaith am gyfres uchelgeisiol o flaenoriaethau ac yn adeiladu ar y buddsoddiad a'r momentwm a gyflawnwyd yn y Pedwerydd Cynulliad.

Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o brif ddangosyddion, a bennwyd yn unol â'r nodau strategol ac a gaiff eu dadansoddi ymhellach drwy gyfres o ddangosyddion manylach. Defnyddir system o 'oleuadau traffig' i ddangos perfformiad yn ôl targedau'r dangosyddion:

**Yr allwedd ar gyfer statws Coch/Oren/Gwyrdd:**

**Coch:** Mae materion sylweddol yn effeithio ar y gallu i gyflawni amcanion busnes. I sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni, mae angen newidiadau o ran amser, costau a/neu gwmpas.

**Oren:** Mae materion neu risgiau y mae angen mynd i'r afael â nhw. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd modd cyflawni'n llwyddiannus heb effeithio rhyw lawer ar y gyllideb, safon gwasanaethau na dyddiadau targed.

**Gwyrdd:** Mae gwaith yn bodloni'r safonau y cytunwyd arnynt neu yn mynd rhagddo fel y cynlluniwyd. Mae pob risg sy'n hysbys yn cael ei rheoli.

Dyma adroddiad perfformiad corfforaethol cyntaf y Pumed Cynulliad ac mae'n edrych ar sut y perfformiodd Comisiwn y Cynulliad yn unol â'i nodau strategol ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill a mis Medi 2016.

Rydym wedi adolygu'r adroddiad a'r ystod o ddangosyddion er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i ddiwallu ein hanghenion o ran adrodd ar berfformiad, a'u bod yn ddefnyddiol ac yn berthnasol ar gyfer y Pumed Cynulliad. Mae targedau'r dangosyddion wedi cael eu hadolygu, a chrëwyd llinell sylfaen newydd ar gyfer y Pumed Cynulliad er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i herio ac adeiladu ar ein cyflawniadau blaenorol.

Mae Comisiwn y Cynulliad hefyd yn cyhoeddi **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon**, sy'n archwilio sut y mae'r Comisiwn yn cyflawni yn ôl ei nodau a'i flaenoriaethau strategol a'r hyn a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn ariannol.

Dylid darllen yr adroddiad hwn ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon i gael darlun llawn o berfformiad a chyflawniad y Comisiwn.

## Mynediad at wybodaeth

Mae'r Comisiwn yn fodlon darparu rhagor o wybodaeth os hoffech ddysgu rhagor am ein gwaith:

– Gallwch gysylltu â ni yma: **www.cynulliad.cymru/cysylltu**

– Mae canllawiau ar **fynediad at wybodaeth** ar gael ar wefan y Cynulliad.

# Cyflawniad ar sail Nodau Strategol

Crynodeb o'r wybodaeth fanylach sy'n dilyn am y dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs):

| Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf | Ebrill 2015 – Medi 2015 | Ebrill 2016 – Medi 2016 |
|---|---|---|
| **KPI 1: Cyflawnwyd yr holl waith seneddol yn ôl y bwriad**<br>Perfformiad cyson uchel o ran cyhoeddi papurau pwyllgor, papurau briffio a Chofnod y Trafodion. Ni effeithiwyd ar unrhyw rai o drafodion y Cynulliad gan fethiant i ddarparu gwasanaethau'r Comisiwn. | Gwyrdd | Gwyrdd |
| **KPI 2: Darparu Datblygiad Proffesiynol effeithiol**<br>Mae'r niferoedd sy'n manteisio ar weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus wedi cynyddu'n sylweddol yn y cyfnod yn dilyn etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016. Ar ôl creu tîm Sgiliau Iaith newydd, mae llawer o bobl wedi dangos diddordeb o'r newydd mewn dysgu Cymraeg. | Oren | Gwyrdd |

| Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad | Ebrill 2015 – Medi 2015 | Ebrill 2016 – Medi 2016 |
|---|---|---|
| **KPI 3: Helpu i feithrin dealltwriaeth am rôl a gwaith y Cynulliad**<br>Mae lefelau boddhad ymhlith ymwelwyr yn parhau i fod yn uchel, ac rydym wedi gweld cynnydd yn nifer y teithiau a drefnwyd. Yn ôl y disgwyl, trefnwyd llai o ddigwyddiadau ar yr ystâd yn ystod cyfnod y diddymiad cyn etholiad y Cynulliad ym mis Mai 2016. Yn dilyn yr Etholiad, trefnwyd llai o ddigwyddiadau a noddir gan Aelodau Cynulliad o gymharu â'r un cyfnod y llynedd. Roedd gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr â'r Pierhead o gymharu â'r un cyfnod y llynedd hefyd, a hynny am fod arddangosfa boblogaidd wedi'i chynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2015, a ddenodd nifer fawr o ymwelwyr, ac am fod y Pierhead ar gau am wythnos i wneud gwaith cynnal a chadw ym mis Mai 2016. | Oren | Gwyrdd |
| **KPI 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad**<br>Yn sgil ymgyrch yr Etholiad rhwng mis Ebrill a mis Mai, roedd llawer o weithgarwch ar y cyfryngau cymdeithasol a arweiniodd at fwy o draffig. Roedd cynnydd mawr yn nifer yr ymweliadau â sianel YouTube y Cynulliad yn y cyfnod hwn hefyd. Mae hynny'n rhannol oherwydd yr Etholiad, ond gwnaed penderfyniad strategol hefyd i greu mwy o gynnwys fideo i'w gyflwyno drwy YouTube. | Gwyrdd | Gwyrdd |

| Defnyddio adnoddau'n ddoeth | Ebrill 2015 – Medi 2015 | Ebrill 2016 – Medi 2016 |
|---|---|---|
| **KPI 5: Gwariant yn ôl targed**<br>Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau o ran y rhagolwg tanwariant a Gwerth am Arian. Drwy aildrafod contractau, byddwn yn sicrhau arbedion gwerth £362,000 dros y pum mlynedd nesaf. Mae'r taliadau a wneir i gyflenwyr ac Aelodau'r Cynulliad yn parhau i fod ymhell o fewn y targed. | Gwyrdd | Gwyrdd |
| **KPI 6: Mae'r gofynion a'r disgwyliadau o ran adnoddau staff yn cael eu diwallu**<br>Gwelwyd gostyngiad bach yn y ffigurau ar gyfer y cyfnod o chwe mis o gymharu â'r cyfartaledd ar gyfer 12 mis, yn rhannol oherwydd ffactorau tymhorol ac yn rhannol oherwydd gostyngiad mewn achosion o salwch hirdymor. Roedd cynnydd yn nifer yr adolygiadau perfformiad staff a gwblhawyd. Roedd gostyngiad bach yn nifer y bobl a gwblhaodd yr arolwg staff blynyddol o gymharu â'r cyfnod blaenorol, ond mae'r gyfradd ymateb yn dal yn uwch na chanolrif y Gwasanaeth Sifil. | Oren | Gwyrdd |
| **KPI 7: Mae gwasanaethau TGCh yn cael eu darparu yn ôl y bwriad**<br>Er i'r llwyth gwaith gynyddu ar ôl yr etholiad, wrth i'r adran weithio gyda'r Aelodau a'u staff i roi trefn ar eu swyddfeydd, cynhaliwyd safon uchel o wasanaeth. | Oren | Gwyrdd |
| **KPI 8: Mae ceisiadau rhyddid gwybodaeth yn cael eu prosesu yn ôl y gofyn**<br>Cafwyd nifer fawr o geisiadau rhyddid gwybodaeth. Ni atebwyd tri chais rhyddid gwybodaeth o fewn y terfyn amser statudol gan eu bod yn gofyn am ddatgelu gwybodaeth bersonol sensitif ac roedd yn rhaid i'r Comisiwn ymgynghori â gwrthrychau'r data. | Gwyrdd | Oren |
| **KPI 9: Mae targedau amgylcheddol yn cael eu bodloni yn ôl y bwriad**<br>Parheir i wneud cynnydd da yn unol â'r targedau ar gyfer gostwng cyfanswm yr allyriadau ynni ac atal gwastraff rhag cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Mae Comisiwn y Cynulliad wedi cyflawni gostyngiad o 13% yng nghyfanswm yr allyriadau ynni o gymharu â llinell sylfaen 2012-13, ac mae ar y trywydd iawn i gyflawni gostyngiad o 30% erbyn 2021, yn unol â'r targed â bennwyd. | Oren | Gwyrdd |

# Nod Strategol: Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf

| | Targed | Ebrill 2015 – Medi 2015 | Ebrill 2016 – Medi 2016 | |
|---|---|---|---|---|
| **KPI 1: Cyflawnwyd yr holl waith seneddol yn ôl y bwriad** | | Gwyrdd | Gwyrdd | |
| Canran y papurau pwyllgor a gyhoeddwyd o fewn terfynau amser y cytunwyd arnynt â phob pwyllgor | 100% | 97.0% | 95.0% | ● |
| Canran Cofnod Trafodion y Cyfarfod Llawn a gyhoeddwyd o fewn y terfyn amser | 100% | 100% | 100% | ● |
| Canran Cofnod Trafodion y pwyllgorau a gyhoeddwyd o fewn 5 diwrnod gwaith | 100% | 98.0% | 100% | ● |
| Nifer y cyfarfodydd pwyllgor/Cyfarfod Llawn yr effeithiwyd arnynt oherwydd methiant i ddarparu gwasanaethau'r Comisiwn | 0% | 0.6% (1 o 158) | 0.0% | ● |
| Canran yr ymholiadau i'r gwasanaeth ymchwil a atebwyd o fewn terfyn amser y cytunwyd arno | 100% | 98.9% | 98.7% | ● |

Noder: Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

| | Targed | Ebrill 2015 – Medi 2015 | Ebrill 2016 – Medi 2016 | |
|---|---|---|---|---|
| **KPI 2: Darparu Datblygiad Proffesiynol effeithiol** | | Oren | Gwyrdd | |
| Yn dilyn yr Etholiad, nifer yr Aelodau Cynulliad Newydd a gwblhaodd y rhaglen gynefino | 80% | - | 100% | ● |
| Nifer y lleoedd ar raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus a lenwyd gan Aelodau Cynulliad | 90 | 85 | 198 | ● |
| Nifer y lleoedd ar raglen Datblygiad Proffesiynol Parhaus a lenwyd gan Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad | 175 | 202 | 315 | ● |
| Y graddau y mae Aelodau'r Cynulliad a staff cymorth Aelodau'r Cynulliad yn disgwyl i'r hyfforddiant a ddarparwyd gael effaith gadarnhaol ar eu gwaith | Effaith gadarnhaol 70% | - | 99.0% | ● |
| Nifer y Dysgwyr Cymraeg yn cael hyfforddiant | - | 32 | 91 | - |

Noder: Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Medi.

# Nod Strategol: Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad

| | Targed | Ebrill 2015 – Medi 2015 | Ebrill 2016 – Medi 2016 |
|---|---|---|---|
| **KPI 3: Helpu i feithrin dealltwriaeth am rôl a gwaith y Cynulliad** | | **Oren** | **Gwyrdd** |
| **Nifer yr ymwelwyr yn: [1]**<br>- Y Senedd<br>- Y Pierhead | **I'w gynnal ym mhob cyfnod** | **41,040**<br>**52,507** | **45,168**<br>**47,276** |
| **Nifer yr ymwelwyr ar deithiau [1]** | **I'w gynnal ym mhob cyfnod** | **9,447** | **15,252** |
| **Y cwsmeriaid a roddodd sgôr dda/da iawn i'r profiad cyffredinol ar daith yr ystâd [2]** | **80%** | **-** | **100%** |
| **Nifer y digwyddiadau a drefnwyd ar yr ystâd [1]** | **Cynnydd o gymharu â'r cyfnod blaenorol** | **129** | **77** |
| **Y cwsmeriaid a roddodd sgôr dda/da iawn i'r profiad cyffredinol o ran trefnu digwyddiad ar yr ystâd [2]** | **80%** | **-** | **100%** |
| **Nifer y sesiynau codi ymwybyddiaeth gyffredinol wyneb yn wyneb a gynhaliwyd gyda phobl ifanc [1]** | **I'w gynnal ym mhob cyfnod** | **-** | **381** |

Noder: [1] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd. [2] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

| | Targed | Ebrill 2015 – Medi 2015 | Ebrill 2016 – Medi 2016 | |
|---|---|---|---|---|
| **KPI 4: Hyrwyddo gwaith y Cynulliad** | | Gwyrdd | Gwyrdd | |
| Traffig ar y we: [3] | | | | |
| - Ymwelwyr | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 39,179 | 40,463 | ● |
| - Ymweliadau | | 77,266 | 76,812 | ● |
| - Agor tudalen benodol | | 267,267 | 266,613 | ● |
| Facebook - Cyrhaeddiad ar gyfartaledd [3] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | - | 15,247 | ● |
| Facebook – Hoffi [4] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 4,056 | 7,833 | ● |
| Nifer y bobl a welodd cynnwys penodol ar Twitter (Impressions) [4] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | - | 528,900 | ● |
| Twitter: [4] | | | | |
| - Dilynwyr (y prif gyfrif corfforaethol) | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 30,852 | 41,868 | ● |
| - Dilynwyr (cyfrifon eraill) | | 16,789 | 23,259 | ● |
| YouTube: [5] | | | | |
| - Gwylio cynnwys | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 8,933 | 90,766 | ● |
| - Munudau a wyliwyd | | 18,094 | 59,340 | ● |
| Defnyddio Senedd.tv: [5] | | | | |
| - Gwylio cynnwys | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 121,132 | 145,968 | ● |
| - Defnyddwyr | | 20,911 | 25,200 | ● |
| Agor blog y Gwasanaeth Ymchwil (Saesneg a Chymraeg) [5] | I'w gynnal ym mhob cyfnod | 39,793 | 63,411 | ● |

Noder: [3] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd. [4] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Medi. [5] Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

# Nod Strategol: Defnyddio adnoddau'n ddoeth

| | Targed | Ebrill 2015 – Medi 2015 | Ebrill 2016 – Medi 2016 | |
|---|---|---|---|---|
| **KPI 5: Gwariant yn ôl targed** | | Gwyrdd | Gwyrdd | |
| Rhagolwg o ganran y tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn [6] | <0.5% | 2.0% | 0.0% | |
| Cyflawni'r targed gwerth am arian [6] | £500,000 | £136,000 | £362,000 | |
| Diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i dalu cyflenwyr [7] | <10 diwrnod | 6.9 | 6.0 | |
| Diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i dalu Aelodau'r Cynulliad [7] | <5 diwrnod | 2.1 | 2.1 | |

Noder: [6] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Medi. [7] Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

I gael rhagor o wybodaeth am Strategaeth Comisiwn y Cynulliad o ran y Gyllideb, dylech gyfeirio at y **Gyllideb** a'r **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon**.

| | Targed | Ebrill 2015 – Medi 2015 | Ebrill 2016 – Medi 2016 | |
|---|---|---|---|---|
| **KPI 6: Mae'r gofynion a'r disgwyliadau o ran adnoddau staff yn cael eu diwallu** | | Oren | Gwyrdd | |
| Absenoldeb oherwydd salwch - canran y cyfartaledd treigl dros 12 mis [8] | <3% | 3.6% | 3.5% | |
| Absenoldeb oherwydd salwch - canran y cyfartaledd misol | <3% | 2.6% | 2.7% | |
| Cwblhau adolygiadau perfformiad staff (ddwywaith y flwyddyn - Ebrill a Hydref) | 100% | 86.0% | 94.4% | |
| Cyfradd ymateb cyflogeion i'r arolwg staff blynyddol | Canolrif y Gwasanaeth Sifil – 65% ar hyn o bryd | 93.0% | 85.0% | |
| Lefel ymgysylltiad cyflogeion yn unol â'r pum cwestiwn craidd yn yr arolwg staff blynyddol | Canolrif y Gwasanaeth Sifil – 58% ar hyn o bryd | 72.0% | 72.0% | |
| Nifer y staff: [8] | | | | |
| - Nifer yr aelodau o staff | - | 427 | 442 | - |
| - Cyfwerth ag amser llawn (FTE) | - | 406 | 423.7 | - |

Noder: [8] Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Medi.

| | Targed | Ebrill 2015 – Medi 2015 | Ebrill 2016 – Medi 2016 | |
|---|---|---|---|---|
| **KPI 7: Mae gwasanaethau TGCh yn cael eu darparu yn ôl y bwriad** | | Oren | Gwyrdd | |
| Targedau'r cytundeb lefel gwasanaeth a gyflawnwyd ar gyfer pob achos | 100% | 87.7% | 90.7% | Gwyrdd |
| Sgôr boddhad cwsmeriaid ar gyfer ymdrin ag achosion (allan o 9) | 8 | 8.7 | 8.9 | Gwyrdd |

Noder: Dangosir y data fel cyfartaledd ar gyfer y cyfnod adrodd.

| | Targed | Ebrill 2015 – Medi 2015 | Ebrill 2016 – Medi 2016 | |
|---|---|---|---|---|
| **KPI 8: Y ceisiadau rhyddid gwybodaeth sy'n cael eu prosesu yn ôl y gofyn** | | Gwyrdd | Oren | |
| Nifer y ceisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd | - | 23 | 41 | - |
| Canran y ceisiadau rhyddid gwybodaeth a atebwyd yn unol â'r terfyn amser statudol | 100% | 100% | 92.7% | Oren |

Noder: Dangosir y data fel cyfanswm ar gyfer y cyfnod adrodd.

| | Targed | Ebrill 2015 – Medi 2015 | Ebrill 2016 – Medi 2016 | |
|---|---|---|---|---|
| **KPI 9: Mae targedau amgylcheddol yn cael eu bodloni yn ôl y bwriad** | | Oren | Gwyrdd | |
| Cyfanswm ôl troed ynni (Ystâd Bae Caerdydd) | Gostyngiad o 30% yng nghyfanswm yr allyriadau ynni erbyn 2021 | 3.4% | 13.0% | Gwyrdd |
| Atal gwastraff rhag cael ei anfon i safleoedd tirlenwi | 100% erbyn 2021 | 95.0% | 96.4% | Gwyrdd |

Noder: Dangosir y data fel ar ddiwedd mis Medi.

I gael rhagor o wybodaeth am faterion amgylcheddol, dylech gyfeirio at yr **adroddiad amgylcheddol blynyddol**.